Ysgol Morgan Llwyd

Ym mhob llafur y mae elw

# Adroddiad y Llywodraethwyr i Rieni
# Blwyddyn Ysgol 2023-24

## Y Corff Llywodraethol

**Cadeirydd** Mr Huw Robertson – Cyfathrebu drwy law y swyddfa
**Clerc** Mrs Adrienne Jones - Cyfathrebu drwy law y swyddfa

**Rhieni Llywodraethwyr** (Penodwyd gan Rieni)

| | Diwedd Tymor |
|---|---|
| Mrs Amy Wedley | Ymddiswyddo 03/07/24 |
| Mrs Sarah Roberts | 03/02/25 |
| Ms Rachel Mason | 31/01/26 |
| Mr Brendan Murray | 02/11/25 |
| Mrs Rhodd Arnold | 28/03/27 |
| Mrs Andrea Woods | 18/01/28 |

**Athrawon Llywodraethwyr** (Penodwyd gan Athrawon)

| | |
|---|---|
| Mr Sion Morris | 07/07/26 |
| Mr Geraint Phillips | 07/07/26 |

**Staff Llywodraethwyr** (Penodwyd gan Staff Cefnogol)

| | |
|---|---|
| Miss Rhian Owen | 17/05/26 |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Leol**
(Penodwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam)

| | Diwedd Tymor |
|---|---|
| Mrs Ceri Edwards | 31/01/25 |
| Mr Peter Jones | 30/09/27 |
| Dr Sara Wheeler | 31/03/27 |
| Carrie Harper | 30/09/27 |
| Mrs Mel Henry | 30/09/27 |

**Llywodraethwyr Cymunedol**
(Penodwyd gan y Corff Llywodraethol)

| | |
|---|---|
| Mr Huw Robertson | 07/06/24 |
| Mrs Kate Owen- Jones | 29/06/26 |
| Parch Trefor Jones-Morris- Ymddiswyddo | 12/09/24 |
| Mrs Sian Barnett | 22/06/25 |
| Mr Paul Jones | 24/11/24 |

**Llywodraethwr Cysylltiol ar ran y Disgyblion** (Penodwyd gan y Chweched Dosbarth)

| | |
|---|---|
| Ms Angharad Hughes | 31/08/24 |

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Ysgol Morgan Llwyd

Ym mhob llafur y mae elw

**Cyfarchiad Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr**

Braint ac anrhydedd yw cael cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yma i chi unwaith eto. Mwynhewch y darllen a'r pori, a chymryd y cyfle i weld yr hyn sydd wedi digwydd yn yr ysgol ar gyfnod cynhyrfus a phrysur yn ein hanes.

Dylid nodi y bu i'r blynyddoedd diwethaf fod yn rai digon problematig ond rydym wedi eu goresgyn ac yn brysur yn mynd i'r afael â chynlluniau strategol ar gyfer datblygiadau cyffrous pellach.

Diolch i'r disgyblion / myfyrwyr am eu gwaith a'u cwmni a dymuniadau gorau i'r rheiny sydd yn ein gadael, pob llwyddiant i chi ar ba bynnag lwybr y troediwch. Diolch hefyd i'r rhieni a'r teuluoedd am bob cefnogaeth, hanfodol ar gyfer cynnydd a llwyddiant y plant i gyd. Diolch i'r staff i gyd am eu gwaith a'u hymroddiad a hynny nid yn unig yn y dosbarth o ddydd i ddydd ond gyda phopeth y maent yn ei wneud i'r disgyblion, yn aml y tu hwnt i'r hyn sydd raid.

Ac yn olaf, diolch i'r llywodraethwyr am eu gwaith a'u cyfraniad hwythau ac am roi cymaint o'u hamser a'u doniau i gefnogi gwaith yr ysgol.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn ein hanes.

Mr Huw Robertson

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

## Llywodraethwyr

Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r Bwrdd Llawn a'r is-bwyllgorau yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Penodwyd Mr Huw Robertson yn Gadeirydd a'r Parchedig Trefor Jones-Morris yn Is-gadeirydd.
Mae'r Llywodraethwyr yn gweithredu drwy is-bwyllgorau sydd yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Llawn.

| **Is-bwyllgor** | **Cadeirydd** |
|---|---|
| Adeiladau a Diogelwch | Mr Geraint Phillips |
| Safonau ac Asesu | Parch Trefor Jones-Morris |
| Cyllid | Mr Peter Jones |
| Disgyblaeth Disgyblion | Enwebir pe bai angen i'r is-bwyllgor gyfarfod. |
| Disgyblaeth Staff | Enwebir pe bai angen i'r is-bwyllgor gyfarfod. |
| Staffio | Parch Trefor Jones-Morris |

Mae gan Ysgol Morgan Llwyd lywodraethwyr gweithgar a chefnogol, a diolchwn iddynt am eu gwasanaeth gwirfoddol effeithiol ac effeithlon eto eleni.

Adolygwyd nifer o bolisïau yn ystod y flwyddyn. Mae copi o sawl polisi ar gael ar ein safle we Polisïau Ysgol Morgan Llwyd , ond, os ydych yn dymuno copi electroneg, mae croeso i chi e-bostio'r ysgol yn holi am un.

## Datganiad Ariannol

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid yn cyfarfod yn fisol ac yn monitro cyllideb yr ysgol yn ofalus. Gweler Atodiad A(i).

Rydym yn awyddus i sicrhau bod yr ysgol yn derbyn gwerth am arian ac yn treulio llawer o amser yn adolygu eitemau gwariant, i weld os gellir gwneud arbedion heb gael effaith negyddol ar yr addysg a ddarperir.

Hefyd, mae'r is-bwyllgor yn adolygu ansawdd gwasanaethau gan ddarparwyr allanol ac yn cefnogi tîm rheoli'r ysgol a'r corff llywodraethu llawn wrth adnewyddu cytundebau. Darperir cyngor gwerthfawr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Maes heriol arall yw ariannu addysg ôl-16 lle mae'r prosesau yn gymhleth.

Y swm yng nghronfa breifat yr ysgol ym Mawrth 2023 oedd £87,593 Gweler atodiad A(ii).

Parhawyd â'n rhaglen barhaus o gynnal a chadw'r ysgol, gwaith sy'n cael ei fonitro gan yr Is-bwyllgor Adeiladau a Diogelwch. Mae gwariant sylweddol wedi cael ei fuddsoddi yn yr Hwb Dysgu a'r Hwb Bugeiliol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles ein disgyblion.

Nid oes unrhyw daliadau yn cael eu gwneud i Lywodraethwyr yn gysylltiedig â'u rôl fel aelod o'r Corff Llywodraethu.

## Niferoedd Staff a Disgyblion

| **Niferoedd yr Ysgol:** | **Medi 2022** | | **Medi 2023** |
|---|---|---|---|
| Athrawon Llawn Amser | 49 | Disgyblion | 897 |
| Athrawon Rhan Amser | 11 | Cymhareb Athrawon-Disgyblion | 1:14 |
| Athrawon – Cyfanswm Cyfwerth | 55.7 | | |

Mae'r galw am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gynnydd yn ardal Wrecsam. O ganlyniad, mae'r niferoedd yn yr ysgol yn parhau i dyfu.

| | **2021 - 22** | **2022 - 23** | **2023 - 24** |
|---|---|---|---|
| Presenoldeb Ysgol Gyfan | 89.7% | 90.7% | 90.8% |

Mae nifer o rieni yn dal i ddewis neu'n gorfod cymryd eu plant ar wyliau yn ystod y tymor ac mae hynny yn gwaethygu canlyniadau'r niferoedd sy'n absennol.

Mae Ysgol Morgan Llwyd yn falch o'r canran presenoldeb uchel ac yn ddiolchgar i'n rhieni am y cyd-weithio agos yn sicrhau fod ein disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Roedd absenoldebau awdurdodedig ar gyfer 6.86% o sesiynau'r ysgol (boreau a phrynhawniau) ac anawdurdodedig yn 2.29%. Mae ffigyrau presenoldeb Cymru yn

dangos bod lefelau presenoldeb mewn ysgolion yn isel yn dilyn Covid: mae'r ysgol wedi bod yn gweithio'n galed i gynyddu a chynnal y ganran presenoldeb dros y blynyddoedd diwethaf ac mae diolch i waith y tîm bugeiliol am hyn. Targed presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2023-2024 yw 95%.

## Canlyniadau Arholiadau Allanol 2024

Llongyfarchiadau i'r ysgol ar lwyddiant ei disgyblion mewn arholiadau allanol: Safon Uwch, y Fagloriaeth Gymreig a'r TGAU, gweler y manylion yn Atodiad B.

## Categori Iaith yr Ysgol

Mae'r ysgol yn Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg, yn ôl categorïau iaith Llywodraeth Cymru.

Addysgir pob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl.

Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall, yn ddibynnol ar iaith y cartref.

Mae pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg.

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

## Cynnydd ar Gynllun Datblygu'r Ysgol

Mae'r ysgol yn llunio Cynllun Datblygu yn flynyddol sydd yn canolbwyntio ar weithredu yn erbyn y blaenoriaethau. Mae copi o'r blaenoriaethau ar gael ar ein safle we; os ydych yn dymuno gweld copi llawn o'r Cynllun Datblygu cysylltwch gyda'r swyddfa. Blaenoriaethau'r flwyddyn oedd:

**Blaenoriaeth 1** – Cwricwlwm – Parhau i ddatblygu sgiliau disgyblion o fewn pob maes dysgu a phrofiad.

**Blaenoriaeth 2** – Llesiant – Sicrhau bod yr ysgol yn darparu gofal bugeiliol o'r ansawdd orau ar bob lefel. *

**Blaenoriaeth 3** – Dysgu ac Addysgu- Sicrhau bod gwybodaeth ADY yn gyfredol ac yn cael ei harddangos a'i rhannu'n effeithiol gyda staff fel eu bod yn llwyddo i ddarparu'n effeithiol yn unol â gofynion Côd ADY (2021).

**Blaenoriaeth 4** – Arweinyddiaeth – Parhau i ddatblygu arweinyddiaeth yr UDRH a Rheolwyr Canol.

Bydd blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer 2024-2025 yn seiliedig ar:

- Dysgu ac Addysgu - Parhau i ddatblygu sgiliau disgyblion
- Lles, gofal, cymorth ac arweiniad – Sicrhau'r gefnogaeth orau i ddisgyblion sy'n wynebu rhwystrau yn eu dysgu
- Arwain a Gwella - Cynllunio ar gyfer y cyrsiau TGAU newydd. *
- Arwain a Gwella - Arloesi yn ein darpariaeth ar gyfer Datblygiad Proffesiynol
- Gwella ansawdd adroddiadau.

## Y Cwricwlwm

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnwys gweithgareddau bydd y disgybl yn eu gwneud yn y gwersi a thu allan y dosbarth. Mae hi'n gyfnod cyffrous iawn wrth inni baratoi at gyflwyno Cwricwlwm i Gymru, cwricwlwm a fydd yn

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

sicrhau y bydd ein disgyblion yn gadael yr ysgol yn 'ddysgwyr uchelgeisiol, galluog', yn 'gyfranwyr mentrus, creadigol', yn 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus', ac yn 'unigolion iach, hyderus'.

Yn gam tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac er mwyn hwyluso trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd, ym mis Medi 2021, cyflwynwyd chwe phroject newydd, cyffrous i ddysgwyr blwyddyn 7. Mae pob project yn gwyro tuag at un o'r meysydd dysgu newydd a'u prif nod yw datblygu sgiliau pwysig, o lythrennedd i weithio'n annibynnol; o sgiliau rhif i ddatrys problemau. Ym mis Medi 2022, cyflwynwyd prosiectau tebyg i amserlen blwyddyn 8 yn ogystal. Mae prosiectau hefyd wedi'u cyflwyno ym mlwyddyn 9 erbyn hyn. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â phrojectau'r ysgol ar gael ar ein safle we www.ysgolmorganllwyd.cymru

Wrth i'r disgyblion deithio fyny'r ysgol, cânt gyfle i arbenigo mewn meysydd o'u dewis wrth barhau i ddatblygu sgiliau allweddol drwy gyrsiau craidd a Bagloriaeth Cymru. Cynigir ystod hael o gyrsiau opsiwn TGAU i weddu i allu a diddordebau gwahanol ddisgyblion.

Mae cwricwlwm y chweched dosbarth yn canolbwyntio ar bynciau academaidd, traddodiadol ac yn caniatáu cyfle i'n myfyrwyr arbenigo ymhellach yn y meysydd o'u dewis. Edrychwn ymlaen at ehangu ein darpariaeth chweched dosbarth yn y dyfodol drwy bartneriaeth ag ysgolion eraill.

## Y Mwyaf Abl

Gwneir pob ymdrech i ymestyn ein hopsiynau ar gyfer y plant mwyaf galluog drwy raglen ymgyfoethogi'r cwricwlwm, prosiectau arbennig, a chyrsiau lefel TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol ychwanegol. Mae gweithgareddau allgyrsiol megis cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ac ati yn cynnig cyfleoedd pwysig hefyd. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos â darpariaeth amgen Seren a Seren Fach.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Roedd 15 disgybl ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023 -2024.
Mae'r ysgol yn parhau i ymateb i'r newidiadau yn sgil y Cod ADY.

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

## Adran Addysg Gorfforol (Blwyddyn Academaidd 2023/24)

Cafodd adran Addysg Gorfforol yr ysgol flwyddyn lwyddiannus eto gyda nifer fawr iawn o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. Gweler isod restr o'r uchafbwyntiau:

### Traws gwlad

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion a gymerodd rhan yng nghystadleuaeth Traws gwlad Ysgolion Wrecsam. Cafodd yr ysgol lwyddiant arbennig unwaith eto.

<u>Tîm o dan 12</u>
Bechgyn – 4ydd , Merched – 3ydd
<u>Tîm o dan 14</u>
Bechgyn – 1af, Merched – 4ydd
<u>Tîm o dan 16</u>
Bechgyn – 3ydd, Merched – 2il
<u>Unigolion a ddewiswyd i gynrychioli'r Sir ym mis Ionawr:</u>
Ellie Roscoe (7fed), Harry Ward (6ed), Lili Taylor (4ydd), Freya Howell (8fed), Efan Weeks (2il), Ioan Morris (3ydd), Lexi Williams-Davies (5ed), Lili Andrews (7fed), Bes Williams (8fed), Owain Wynne (9fed).

### Pêl-rwyd

- Mae'r ysgol wedi chwarae gemau cyfeillgar yn erbyn Ysgolion Uwchradd Wrecsam a Sir Fflint.
- Tîm Pêl-Rwyd Bl. 7 yn 1af yn Nhwrnamaint y Sir.
- Tîm Pêl-Rwyd Bl. 8 yn 2il yn Nhwrnamaint y Sir.
- Tîm Pêl-Rwyd Bl. 9 yn 2il yn Nhwrnamaint y Sir.
- Tîm Pêl-Rwyd Bl. 10 yn 2il yn Nhwrnamaint y Sir.
- Canlyniad yn Nhwrnamaint Bl10/11 Ann Smart - 2il

### Pêl-droed

<u>Cwpan Cymru</u>

- Merched Blwyddyn 7/8 wedi colli i'r Argoed yn y 2ail rownd yng Nghwpan Ysgolion Cymru.
- Merched Blwyddyn 9/10 wedi colli i'r Elfed yn y rownd gyntaf yng Nghwpan Ysgolion Cymru.
- Bechgyn Blwyddyn 7 wedi colli i Ysgol Penarlâg yn y rownd gyntaf yng Nghwpan Ysgolion Cymru.
- Bechgyn Blwyddyn 8 wedi colli i Ysgol Rhosnesni yn y bedwaredd rownd yng Nghwpan Ysgolion Cymru.

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Ym mhob llafur y mae elw

- Bechgyn Blwyddyn 9 wedi colli i'r Elfed yn yr ail rownd yng Nghwpan Ysgolion Cymru.
- Bechgyn Blwyddyn 10 wedi colli i Ysgol Glan Clwyd yn y rownd gyntaf yng Nghwpan Ysgolion Cymru.
- Bechgyn Dan 18 wedi colli i Ysgol Glan Clwyd yn y rownd gyntaf yng Nghwpan Ysgolion Cymru.

Twrnamaint Sir Wrecsam

- Bechgyn Blwyddyn 7 5ed yn Nhwrnamaint Wrecsam.
- Bechgyn Blwyddyn 8 yn 1af yn Nhwrnamaint Wrecsam.

### Rygbi

- Blwyddyn lwyddiannus i dimau rygbi yr ysgol, gyda thimau 7/8 ac 9/10 yn chwarae rownd derfynol Bowlen Gogledd Cymru ym Mharc Eirias.
- Enillwyr Cwpan Gogledd Ddwyrain Cymru Blwyddyn 7/8 yn erbyn Ysgol Dinas Brân.
- Enillwyr Cwpan Gogledd Ddwyrain Cymru Blwyddyn 9/10 – ni wnaeth Trenewydd fynychu'r gêm.
- Enillwyr Bowlen Rygbi Gogledd Cymru Blwyddyn 7/8 yn erbyn Ysgol Bodedern.
- Blwyddyn 9/10 yn colli yn ffeinal Bowlen Rygbi Gogledd Cymru yn erbyn y Creuddyn.
- Blwyddyn 9/10 yn colli yn ail rownd Cwpan Cymru yn erbyn Caereinion.

### Athletau

Cystadleuaeth Ysgolion Wrecsam o dan 13/15:

- Merched o dan 13 – 3ydd
- Merched o dan 15 – 3ydd
- Bechgyn o dan 13 – 1af (Victor Ludorum - Max Jones)
- Bechgyn o dan 15 – 5ed

Cystadleuaeth Ysgolion Wrecsam Blynyddoedd 7 ac 8:

- Merched Blwyddyn 7 – 4ydd
- Merched Blwyddyn 8 – 3ydd
- Bechgyn Blwyddyn 7 – 1af (Victor Ludorum – Tomasi Fidow)
- Bechgyn Blwyddyn 8 – 1af

Rownd Derfynol Cystadleuaeth Bowlen a Chwpan NASUWT Athletau Ysgolion Cymru

- Bechgyn Blwyddyn 7/8 – 6ed (Bowlen)

Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

### Rownderi

Merched blynyddoedd 7/8/10 wedi cystadlu yn Nhwrnamaint y Sir.

### Criced

Buddugol yn erbyn Ysgol Darland mewn gêm gyfeillgar dan do.

### Unigolion (Gogledd Ddwyrain Cymru a thu hwnt)

- Lexi Wiliams-Davies, Jasmine Williams, Ruby Reynolds, Annes Jones, Megan Roberts, Glesni Jones, Erin Reynolds – Pêl-rwyd Gogledd Ddwyrain Cymru.
- Keira Edwards – Tîm Pêl-rwyd Cymru o dan 19.
- Charlotte Salisbury Williams – Merched Pêl-droed Cymru o dan 17.
- Dafi Pemberton – Clwb Pêl-droed Everton, Pêl-droed Cymru o dan 15.
- Ralf Roberts – Rygbi Gynghrair Cymru o dan 16.
- Theo-Riley Spray - Pêl-droed Ysgolion Cymru
- Gwen Nefydd Roberts – Criced Gogledd Cymru

### Amserlen Clybiau'r Adran Addysg Gorfforol

| | **Amser Cinio** | **Ar Ôl Ysgol** |
|---|---|---|
| **Dydd Llun** | 3G – Pêl-droed Bechgyn Bl9/10<br>NCh – Pêl-rwyd Bl7 | |
| **Dydd Mawrth** | 3G – Pêl-droed Merched 7/8<br>NCh – Pêl-rwyd Bl10/11 | |
| **Dydd Mercher** | 3G – Rygbi Bechgyn Bl7-10<br>NCh – Pêl-rwyd Bl8/9 | |
| **Dydd Iau** | 3G – Pêl-droed Bechgyn 7/8<br>Gampfa – Rygbi Merched 7/8 | |
| **Dydd Gwener** | NCh – Pêl-fasged Bl7-10 | |

Ysgol Morgan Llwyd
Ym mhob llafur y mae elw

**Cysylltiadau â'r Gymuned Leol**

Ers blynyddoedd, mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau cadarn gyda diwydiant, masnach a chyflogwyr lleol. Hefyd, cawn fewnbwn cynrychiolwyr o'r busnesau hyn i brofiadau cwricwlaidd a bugeiliol y disgyblion, yn cynnwys ffug-gyfweliadau i fyfyrwyr hŷn. Os ydych chi am ein helpu i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda. Mae gan yr ysgol gysylltiadau arbennig o dda gyda byd diwydiant yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac rydym yn manteisio ar y cysylltiadau i roi profiadau gwerthfawr o fyd diwydiant a busnes i'r myfyrwyr. Caiff ymweliadau i ddiwydiannau a chanolfannau busnes eu trefnu i gwmnïau lleol.

Mae'r Fagloriaeth Gymreig yn rhoi cyfle arbennig i'n disgyblion gydweithio â'r gymuned leol ac i'r gymuned werthfawrogi cyfraniad ein myfyrwyr. Mae nifer yn cael cyfle i wneud gwaith gwirfoddol o fewn ein cymunedau.

Fe ymwelodd Swyddog Cyswllt yr Heddlu, Cwnstabl Mark Jones, â'r ysgol yn rheolaidd i gynnal sesiynau gwahanol gyda'r disgyblion yn ystod cyfnodau ABCh.

Mae hanes am wahanol ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol i'w gweld ar dudalen Trydar yr ysgol @YsgMorganLlwyd, Facebook (ymll_wrecsam) ac Instagram (ymll_wrecsam)

Mae'r ysgol yn cyfrannu'n hael tuag at achosion da lleol yn flynyddol.

Rydym yn anfon gwybodaeth i bob cartref yn rheolaidd drwy SchoolComms. Mae rhieni wedi derbyn gwybodaeth ar berfformiad a chynnydd eu plentyn ac adroddiadau drwy'r wefan Go4Schools.

Mae'r cyfoeth o brofiadau allgyrsiol Ysgol Morgan Llwyd yn parhau, a diolchwn i'r disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth yn ogystal ag amser gwirfoddol staff a rhieni sydd mor gefnogol.

Trefnwyd cyrsiau preswyl, teithiau i wledydd fel Ffrainc, ac mae teithiau i Wlad yr Iâ ac America eleni, yn ogystal â nifer o ymweliadau eraill yn y wlad hon a thramor - profiadau sy'n cyfoethogi sgiliau'r disgyblion a'u cwricwlwm academaidd.

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

Ym mhob llafur y mae elw

## Prosbectws yr Ysgol

Mae'r gwaith o adolygu’r prosbectws ar y gweill unwaith eto wrth i ni ddiweddaru’r prosbectws yn flynyddol. Mae copi ar gael ar ein safle we Prosbectws Ysgol Morgan Llwyd

## Dyddiadau Gwyliau a Thymhorau 2024-25

| | |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2024**<br>Dydd Llun, Medi 2 – Dydd Gwener, Hydref 25<br>Dydd Llun, Tachwedd 4 - Dydd Gwener, Rhagfyr 20<br><br>**Tymor y Gwanwyn 2025**<br>Dydd Llun, Ionawr 6 - Dydd Gwener, Chwefror 21<br>Dydd Llun, Mawrth 3 - Dydd Gwener, Ebrill 11<br><br>**Tymor yr Haf 2025**<br>Dydd Llun, Ebrill 28 - Dydd Gwener, Mai 23<br>Dydd Llun, Mehefin 2 - Dydd Llun, Gorffennaf 21 | **Dyddiau Hyfforddiant Mewn Swydd**<br><br>Dydd Llun, Medi 2<br>Dydd Mawrth, Medi 3<br>Dydd Gwener, Hydref 25<br>Dydd Llun, Ionawr 6<br>Dydd Gwener, Mawrth 14<br>Dydd Llun, Gorffennaf 21 |

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw

## YSGOL MORGAN LLWYD

### CRYNODEB O DDATGANIAD GWARIANT ARIANNOL 2023/2024
### Blwyddyn Ariannol 1af Ebrill 2023 - 31ain Mawrth 2024

| PENNAWD Y GYLLIDEB | GWARIANT/ (INCWM) GWIRIONEDDOL | | GWARIANT/ (INCWM) CYLLIDEB ARFAETHEDIG | BALANS |
|---|---|---|---|---|
| STAFFIO | 4,747,631 | | 4,820,619 | 72,988 |
| SAFLE | 503,125 | | 473,508 | -29,617 |
| TRAFNIDIAETH | 6,585 | | 4,300 | -2,285 |
| CYFLENWADAU A GWASANAETHAU | 325,053 | | 490,575 | 165,522 |
| GWASANAETHAU CEFNOGI ADDYSG | 393,852 | | 240,196 | -153,656 |
| ARIAN WRTH GEFN | 15,306 | | 403,980 | 388,674 |
| CYLLIDO CYFALAF | 1,778 | | 0 | -1,778 |
| CYFANSWM GWARIANT | 5,993,329 | 0 | 6,433,178 | 439,849 |
| INCWM ARALL | -595,811 | | -436,941 | 158,870 |
| BALANS AGORIADOL (1af Ebrill 2023) | -784,598 | | -784,598 | 0 |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **4,612,920** | | **5,211,639** | **598,719** |

**Atodiad A(i)**

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)

YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw

**Atodiad A(ii)**

Form D

Ysgol Morgan LLWYD
Crynodeb o drafodion cronfa brefat yr Ysgol 31 Mawrth 2023
Summary of School Fund Transactions for 31st March 2023

| | £ | | £ |
|---|---|---|---|
| **Mewn Llaw ar ddechrar'r flwyddyn/** Balances b/f **(31/03/2022)** | 87209.86 | **Taliadau**/Payments | 8,126.47 |
| **Incwm heb ei gyflwyno**/Unpresented income 2023 | 173.42 | **Comisiwn**/Commission | 285.12 |
| Gwiriadau Heb eu Cyflwyno ar 31/03/2023/**Unpresented** expenditure as at 31/03/2023 | 200.00 | **Bancio ar-lein**/Online banking | 168,229.74 |
| | | **Credyd unlongyrchol**/Direct Credit | 1,661.80 |
| **Cyfanswm y Balans Agoriadol/Total Opening Balance** | **87,583.28** | **Cyfanswm y Taliadau**/Total Payments | **178,303.13** |
| **Derbyniadau/Income** | | **Balansau a ddygwyd ymlaen**/Balances b/f (31/3/2023) | 82377.93 |
| **Incwm Cronfa Ysgol**/School Fund Income | 164,772.32 | **Incwm heb ei gyflwyno**/Unpresented income 2023 | 173.42 |
| Bancio busnes/Business Banking<br>Arall/Other | 7,596.92<br>1,101.96 | **Gwiriwch na wariwyd gwariant**/Cheque expenditure not banked | 200.00 |
| **Cyfanswm**/Total | **173,471.20** | **Cyfanswm**/Total | **82,751.35** |
| **Mewn Llaw ar ddiwedd y** *Flwyddyn/Closing Account Balance* | **261,054.48** | **Mewn Llaw ar ddiwedd y** *Flwyddyn/Closing Account* Balance | **261,054.48** |

Rwyf wedi archwilio'r Cyfrifon uchod ar gyfer 2022/23 ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol ac wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol. ac esboniadau perthynol iddynt.
I have examined the Accounts above for 2022/23 together with all relevant supporting documents and have obtained all the necessary information and explanations relating to them.

Rwy'n tystio bod Cyfrifon 2022/23 wedi'u hanodi uchod, yn cyflwyno darlun cywir o'r gweithgareddau a'r trafodion a wnaed ar ran o'r Cyfrifon uchod.
I certify that the 2022/23 Accounts annotated above, present an accurate picture of the activities and transactions undertaken on behalf of the above Accounts.

**Archwilydd:/Auditor:** Date: 16/08/2

**Deborah Foulkes Chartered Internal Auditor**
**18 The Hawthorns, Acton, Wrexham, LL127BB**

D Foulkes

**Cadeirydd y Llywodraethwyr**/Chair of the Governors: [signature] Date: [illegible]

**Pennaeth/ Headteacher:** [signature] Date: 06/09/

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard [illegible]

YSGOL MORGAN LLWYD

Ym mhob llafur y mae elw

**Atodiad B**

## Crynodeb o Ganlyniadau Arholiadau Allanol – Haf 2024

**<u>Y Chweched Dosbarth</u> – Safon Uwch**

| Gradd | Nifer (96) | Canran |
|---|---|---|
| A*/A | 16 | 16.7% |
| A*-B | 30 | 31.3% |
| A*-C | 57 | 59.4% |
| A*-D | 80 | 83.3% |
| A*-E | 91 | 94.8% |

**<u>Cyfnod Allweddol 4</u> - TGAU**

| | |
|---|---|
| Disgyblion yn ennill Trothwy Lefel 2 gan gynnwys iaith a mathemateg | 56.3% |
| Disgyblion yn ennill Trothwy Lefel 2 | 66.2% |
| Disgyblion yn ennill Trothwy Lefel 1 | 97.9% |
| Sgôr Pwyntiau Capio 9 | 354.2 |

**<u>Cyfnod Allweddol 3</u>**

| | |
|---|---|
| Dangosydd Pwnc Craidd | 86.2% |
| Cymraeg | 90.1% |
| Saesneg | 95.4% |
| Mathemateg | 86.8% |
| Gwyddoniaeth | 98% |

**01978 315050**
bocspost@ysgolmorganllwyd.wrexham.sch.uk
www.ysgolmorganllwyd.cymru

Ysgol Morgan Llwyd,
Ffordd Cefn, Wrecsam,
LL13 9NG

**Prifathrawes**
**Headteacher**
Miss Catrin Pritchard BA, (Anrh.)